# Llwybr Arfordir Cymru –
# Arfordir y De
## Arolwg Busnes 2024

**Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt**
jhollingsworth@djsresearch.com

**Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil**
crapkins@djsresearch.com

**Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil**
eward@djsresearch.com

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

djs research

# Cynnwys


3 Cefndir a methodoleg

6 Proffiliau busnes

11 Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

16 Ansawdd y llwybr

19 Hyrwyddo’r llwybr

29 Casgliadau ac argymhellion

# Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y De
## Cefndir a Methodoleg



# Cefndir a Methodoleg

## Prif nod yr arolwg hwn yw gwella dealltwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill o'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau i fanteisio i'r eithaf ar eu lleoliad a'r cyfleoedd a gyflwynir gan lwybrau pellter hir Cymru, sef Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro), Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr.

Yn gyffredinol, mae'r amcanion yn ymwneud â'r holl lwybrau pellter hir, fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar fudd **Llwybr Arfordir Cymru ar hyd Arfordir y De**.

## Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Nodi'r mathau o fusnesau sy'n gweithredu ar y llwybrau neu'n agos atynt.
- Deall y gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau sy'n agos at y llwybrau.
- Asesu'r buddion y mae'r llwybrau'n eu rhoi i fusnesau, gan gwmpasu incwm uniongyrchol ac anuniongyrchol a gynhyrchir dros wahanol dymhorau.
- Gwerthuso lefel y cydweithio ymhlith busnesau ar hyd y llwybrau.
- Gofyn am farn ar faterion megis argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, gwelededd, hygyrchedd, arwyddion, marchnata, cefnogaeth, ac unrhyw heriau neu rwystrau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.
- Archwilio'r diddordeb a'r gefnogaeth ar gyfer sefydlu porth busnes pwrpasol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.
- Hwyluso cymhariaeth ag arolygon blaenorol a gynhaliwyd ar yr un pwnc lle bo hynny'n bosibl neu'n berthnasol.



Cynhaliwyd yr arolwg hwn drwy gyfweliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI). Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn gynhwysol ac yn hygyrch, darparwyd opsiwn ar-lein hefyd.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i fusnesau naill ai ystyried eu hunain yn agos at un o'r llwybrau pellter hir (o fewn pellter cerdded neu daith fer mewn car) neu ddatgan eu manteision busnes o un o'r llwybrau mewn rhyw ffordd.

Ar y cyfan, roedd ychydig dros fil o fusnesau yn rhan o'r arolwg. Roedd **106** ohonynt ar hyd Arfordir y De ac fe'u neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru, ar y sail mai dyna oedd eu llwybr agosaf neu'r un y cawsant y budd mwyaf ohono. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y busnesau hyn yn unig.

Er mwyn cael manylion llawn y fethodoleg, gweler Arolwg Busnes Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol 2024 (adroddiad cyffredinol).

# Canllaw i'r adroddiad hwn

## Talgrynnu

Cyflwynir y canlyniadau yn yr adroddiad hwn fel rhifau cyfan er hwylustod darllen a dehongli. Bydd talgrynnu yn digwydd yng ngham olaf y cyfrifiad er mwyn sicrhau'r cywirdeb gorau posibl. Felly, pan gyflwynir canlyniadau fel % positif, % niwtral neu % negatif, efallai y bydd achosion lle na fydd y canlyniadau'n rhoi cyfanswm o 100%. Ni ddylai'r gwahaniaethau fyth amrywio yn ôl +/-1% pwynt.

## Meintiau sylfaen

Sylwch, y meintiau sylfaen sydd wedi'u cynnwys yw cyfanswm y bobl a ymatebodd i gwestiwn penodol. Gan nad yw pawb wedi ateb pob cwestiwn, gall y sylfaen ar gyfer cwestiynau unigol fod yn is na chyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd i'r arolwg ac sydd wedi'u lleoli ar hyd Arfordir y De ac a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (106).

## Diffiniad o lwybr 'a neilltuwyd'

Ar ôl ateb cyfres o gwestiynau sgrinio i bennu agosatrwydd (S02a, S02b) a phwysigrwydd llwybrau i fusnesau unigol (S03, C01 a C02), neilltuwyd llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ymateb i weddill cwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar eu llwybr 'penodedig'.  Mewn achosion lle'r oedd busnesau wedi'u lleoli'n agos at neu'n elwa o fwy nag un llwybr, cawsant eu neilltuo i'r un a) a oedd yn cynhyrchu'r gyfran uchaf o werthiannau/trosiant neu b) y maent yn fwyaf dibynnol arno ar gyfer eu busnes.

## Cymhariaeth â gwerthoedd 'cyfanswm'

Yn yr adroddiad hwn, mae canlyniadau'r rhai sydd wedi'u lleoli ar hyd Arfordir y De ac sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru yn cael eu cymharu â'r ffigurau cyfartalog o'r sampl gyfan o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru, waeth beth fo lleoliad y busnes. Mae'r cyfartaledd cyfun wedi'i labelu fel "Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)" yn y siartiau cymharu. Lle mae ffigurau'n sylweddol uwch na'r cyfanswm ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol, bydd saeth liw yn y siart yn dangos a yw hyn yn sylweddol uwch neu is. Os nad oes saeth, nid yw'r ffigur hwn yn sylweddol wahanol i'r cyfanswm a dylid ei drin yn ofalus. Lle bernir bod gwahaniaethau mawr yn ddi-nod, mae'n debygol bod hyn oherwydd maint sylfaen gwahanol y ddwy sampl.

**Sylwer – mae Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi'i ddosbarthu fel Llwybr Cenedlaethol ond mae hefyd yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru. Drwy gydol yr adroddiad hwn, wrth gyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru (cyfanswm), rydym yn cyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro.**


# Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y De
Proffiliau Busnes




# Proffiliau busnes (I)

Mae'r 106 o fusnesau ar hyd Arfordir y De yn cynrychioli ystod o sectorau – mae 28% yn y sector manwerthu ac 20% yn y sectorau lletygarwch/arlwyo. Mae 12% pellach yn gweithio yn y sector llety. Yn gyffredinol, mae 76% o'r busnesau hyn o fewn y sector preifat, gyda 12% arall yn fusnesau sector cyhoeddus.

## Sector




## Math o sefydliad





**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Pobbusnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Afordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru)(106). **C05B.** Pa un o'r canlynol sy'n crynhoi gweithgareddau eich prif fusnes orau? **C01.** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich busnes orau?

⬇⬆ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)


# Proffiliau Busnes (II)

Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau ar hyd Arfordir y De yn cyflogi llai na 50 o aelodau staff. Mae microfusnesau gyda gweithlu o 0-9 o weithwyr yn cyfrif am 50% o'n sampl. Mae 43% arall yn fusnesau bach gyda rhwng 10-49 o weithwyr. O edrych ar drosiant, mae'r gyfran uchaf - 15% - yn nodi trosiant o £100-200,000 y flwyddyn. Gyda'i gilydd, mae 47% o fusnesau'n nodi trosiant o £300,000 neu lai.

## Maint y busnes




## Trosiant





**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Pobbusnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfodir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru)(106) C07A/B. Gan gynnwys chi eich hun, faint o staff llawn amser a rhan amser parhaol a gyflogir gan eich busnes? **C02**. Beth oedd trosiant bras eich busnes (neu werth gwerthiant) yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?


# Proffiliau busnes (III)

Mae bron i hanner (44%) y busnesau ar Ynys Môn y buom yn siarad â nhw wedi'u sefydlu ers dros 20 mlynedd, gyda 25% ohonynt wedi bod yn gweithredu ers 10-19 mlynedd. Ychydig iawn oedd yn fusnesau newydd eu sefydlu. Mae 82% o'r busnesau y buom yn siarad â nhw ar Ynys Môn yn gweithredu o un lleoliad yng Nghymru. Mae gan 10% ohonynt fwy nag un lleoliad ledled Cymru.

## Nifer y safleoedd




## Daliadaeth y busnes





**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Pobbusnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfodir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru)(106). **Co6.** A yw eich busnes yn gweithredu o un lleoliad neu eiddo, neu leoliadau neu adeiladau lluosog? **Co4.** Oddeutu pa mor hir mae eich busnes wedi bod yn gweithredu o'r lleoliad hwn?


# Proffiliau busnes (IV)

Mae 97% o fusnesau ar hyd Arfordir y De ar agor drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r busnes cyffredin ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, yn genedlaethol (82%). I 27% ohonynt, mae busnes fwyaf tebygol o gyrraedd uchafbwynt yn ystod misoedd yr haf. Fodd bynnag, mae busnesau ar Arfordir y De yn llawer mwy tebygol o adrodd nad oes effaith ar eu busnes yn dymhorol o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws Llwybr Arfordir Cymru (44% o'i gymharu â 27%).

## Busnes ar agor drwy'r flwyddyn




## Tymor brig




**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Pobbusnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfodir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru)(106). **Cw09a.** A yw eich busnes ar agor drwy'r flwyddyn? **C09B**. A oes yna dymor neu amser penodol o'r flwyddyn pan fo'r defnydd o'ch cynhyrchion neu wasanaethau ar ei uchaf o ganlyniad i Lwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol?

⬇⬆ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)


# Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y De
Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau



# Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr

Mae 30% o fusnesau ar hyd Arfordir y De yn ystyried bod y llwybr yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn i lwyddiant eu busnes, gyda 6% yn adrodd ei fod yn 'bwysig iawn'. Mewn cyferbyniad, dywed 50% nad yw'r llwybr o fudd i lwyddiant eu busnes o gwbl. Mae hyn 18% pwynt yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru (32%).

**Pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnesau**





**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664) Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (106). **C02**. Sut byddech chi'n disgrifio pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant eich busnes?

Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

# Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr


I 49% o fusnesau ar hyd Arfordir y De, mae Llwybr Arfordir Cymru yn cynhyrchu hyd at 10% o'u gwerthiant/trosiant. Dywed 25% arall fod y llwybr yn cynhyrchu 11-50% o'u gwerthiant/trosiant.

**Canran y gwerthiannau/trosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr y llwybr / bodolaeth y llwybr**




**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru ac sy'n gweithredu ar Arfordir y De sy'n nodi bod y llwybr yn bwysig i'w fusnes (53) **C03.** Pa ganran o'ch gwerthiant neu drosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr y llwybr neu y gellir ei phriodoli i'w fodolaeth mewn rhyw ffordd?

# Manteision y llwybr i fusnesau




Mae 32% o fusnesau ar hyd Arfordir y De yn cytuno bod presenoldeb Llwybr Arfordir Cymru wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr i'w busnes, gyda 21% arall yn nodi ei fod wedi bod o fudd i'w trosiant. Mae nifer yr achosion o'r ddau fudd ar hyd Arfordir y De yn sylweddol is na chyfran y busnesau sy'n nodi'r un peth ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, yn genedlaethol.

Mewn gwirionedd, i 67% o fusnesau yma, nid yw presenoldeb y llwybr wedi gwneud unrhyw wahaniaeth. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru (46%).


**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Pob**busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfodir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru)(106) C07A/B.** Ydych chi'n meddwl bod presenoldeb Llwybr Arfordir Cymru wedi arwain neu wedi cyfrannu at unrhyw un o'r canlynol ar gyfer eich busnes?

Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

# Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

Mae 16% o fusnesau ar Arfordir y De yn meddwl y bydd Llwybr Arfordir Cymru yn dod yn bwysicach i'w llwyddiant yn y dyfodol (o'i gymharu â 23% ar gyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru i gyd). Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd posibl mewn twristiaeth oherwydd hyrwyddo'r llwybr a mwy o bobl yn ymweld neu'n aros yn yr ardal.  Ond mae 80% yn nodi  nad ydynt yn disgwyl gweld unrhyw newid yn y dyfodol.

## Newid ym mhwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnes/sefydliad




**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (106) **C25a.** A ydych yn ystyried y bydd unrhyw newid yn y dyfodol ym mhwysigrwydd Llwybr Arfordir Cymru i lwyddiant eich busnes? **Sylfaen:** Lle y bydd y llwybr yn dod yn bwysicach (16) C25b. Beth yw'r rheswm dros hynny?


# Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y De
## Ansawdd y llwybr



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr


Cyflwynwyd rhestr o chwe agwedd i bob busnes a gofynnwyd iddynt raddio pob un. O'r holl agweddau a gafodd eu graddio, mae busnesau ar eu mwyaf cadarnhaol gyda chynnal a chadw dodrefn y llwybr (48% yn dda/da iawn) ac arwyddion (37% yn dda/da iawn). Maen nhw leiaf cadarnhaol am ynghylch hygyrchedd llwybrau a darpariaeth cludiant cyhoeddus (y ddau yn 17% da/da iawn). Fodd bynnag, ni roddodd cyfran sylweddol o fusnesau (17-41%) sgôr i unrhyw agwedd. Gallai hyn fod oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a/neu nad yw perchnogion busnes wedi defnyddio'r llwybr.




**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (106) **C25a.** Sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? Ni ddangosir labeli data <5%

# Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr

Wrth eithrio ymatebion 'ddim yn gwybod', mae'r graddau o ran cynnal a chadw dodrefn y llwybr yn parhau i fod fwyaf cadarnhaol (65% yn dda / da iawn), ac yna arwyddion, gyda 44% o'r rhai a oedd yn ymwybodol yn graddio hyn yn dda / da iawn. Yn anffodus, mae anfodlonrwydd gyda hygyrchedd llwybrau yn cynyddu, gan gyrraedd 49% gwael/gwael iawn o gymharu â 29% gydag ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi'u cynnwys.




**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (106) **C25a.** Sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? *Mae'r sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad oherwydd bod ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi'u dileu. Ni ddangosir labeli data <5%


# Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y De
Hyrwyddo'r llwybr





Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Ymwybyddiaeth Brandio

Mae gan 63% o fusnesau rhanbarth Arfordir y De o leiaf rhywfaint o ymwybyddiaeth o frandio'r llwybr (o gymharu â 71% ar gyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru i gyd), gyda 23% o fusnesau yn nodi eu bod yn 'ymwybodol iawn'. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r ymatebwyr hynny ddisgrifio'r logo, ni chafodd pob un y manylion yn gywir. Dywedodd 35% yn gywir fod y logo yn las, a dywedodd 27% ei fod yn felyn, ond dim ond 6% oedd yn cofio ei fod yn wyn ac 6% yn nodi'n gywir fod y logo yn cynrychioli cragen. I'r gwrthwyneb, mae 41% yn nodi nad yw'r logo yn gofiadwy.








**Sylfaen**: Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (106) **C25a.** I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru neu sut mae'n cael ei hyrwyddo? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ar hyd Arfordir y De sy'n ymwybodol o'r brandio ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru neu sut y caiff ei hyrwyddo (66) **C11.** Sut byddech chi'n disgrifio brandio (h.y. logo) Llwybr Arfordir Cymru?


# Ymwybyddiaeth hysbysebu

Mae 26% o fusnesau yn rhanbarth Arfordir y De wedi gweld rhywfaint o gyhoeddusrwydd neu hysbysebu yn ymwneud â'r llwybr dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn sylweddol is na'r gyfran o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol sy'n dweud yr un peth (38%). Ymhlith y 28 o fusnesau sydd wedi gweld hysbysebion, mae'n fwyaf tebygol fod y rhain wedi cael eu gweld ar y teledu, mewn taflen neu ar arwyddion.

## Y ganran (%) a welodd gyhoeddusrwydd neu hysbysebu




## Lle gwelwyd cyhoeddusrwydd/hysbysebu*




**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (106) **C25a.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am Lwybr Arfordir Cymru? **Sylfaen:** Pob ymatebydd ar hyd Arfordir y De sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (28) **C13.** A allwch ddweud wrthyf ble neu sut yr ydych wedi gweld cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru? *RHYBUDD: maint y sylfaen yn fach **Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos.

⬇⬆ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

# Canfyddiadau am hysbysebu

Gofynnwyd i bob busnes ar Arfordir y De sydd wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am Lwybr Arfordir Cymru roi adborth ar amlder ac effeithiolrwydd (o ran denu ymwelwyr/defnyddwyr a helpu/cael effaith ar lwyddiant busnesau yn y dyfodol). Mae 86% o'r busnesau hyn yn ystyried 'effeithiolrwydd' cyhoeddusrwydd diweddar i ddenu defnyddwyr fel 'gweddol' neu 'dda' (o gymharu ag 81% ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol). Yn ogystal, mae 68% yn teimlo bod amlder hysbysebu yn weddol/da (o gymharu â 76% ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol).

**"Sut fyddech chi'n graddio'r cyhoeddusrwydd, yr hysbysebu neu'r wybodaeth rydych chi wedi'u gweld neu eu clywed am y llwybr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran...?"**


| | Da | Niwtral | Gwael | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| **Amlder** | 29% (cyfanswm o 35%) | 39% (cyfanswm o 41%) | 29% (cyfanswm o 18%) | 4% (cyfanswm o 5%) |
| **Effeithiolrwydd o ran denu ymwelwyr/defnyddwyr i'r llwybr/llwybr** | 54% (cyfanswm o 50%) | 32% (cyfanswm o 31%) | 11% (cyfanswm o 11%) | 4% (cyfanswm o 8%) |
| **Effeithiolrwydd o ran helpu neu effeithio ar lwyddiant eich busnes/sefydliad** | 21% (cyfanswm o 30%) | 18% (cyfanswm o 34%) | 25% (cyfanswm o 18%) | 36% (cyfanswm o 18%) |

**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (255), Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru gan gynnwys Sir Benfro) sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (28) C14. Beth yw eich barn am y cyhoeddusrwydd, yr hysbysebu neu'r wybodaeth yr ydych wedi'i gweld neu ei chlywed am Lwybr Arfordir Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf, o ran... ? *RHYBUDD – Maint sylfaen isel

# Derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol

Dim ond 4% o fusnesau (o'i gymharu â 10% ar gyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd) sy'n cofio cael cyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf

**Y ganran (%) a dderbyniodd cyfathrebiadau uniongyrchol**




* Sylwer – mae'r maint sylfaen ar gyfer adrodd adborth ar y cyfathrebu uniongyrchol a dderbyniwyd yn rhy isel i'w ddadansoddi ar lefel ranbarthol.


**Sylfaen:** Pobbusnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (ac sydd hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru gan gynnwys Sir Benfro (106) **C15.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych yn cofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru?

Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

# Hyrwyddo'r llwybr gan fusnesau

Mae 31% o fusnesau yn hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru mewn rhyw ffordd, gyda 10% yn nodi bod y llwybr yn cael ei grybwyll yn benodol yn eu deunyddiau marchnata. Mae hyn yn sylweddol is na'r gyfran o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol (53%). Mae 22% arall yn hyrwyddo'r llwybr ar lafar (hefyd yn sylweddol is na'r 40% sy'n gwneud hynny ar hyd Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol), ac mae 8% yn sôn am y llwybr, ond nid wrth ei enw.

*** Sylwer – cwestiwn amlddewis oedd hwn, sy'n golygu na fydd y bariau'n cyrraedd 100%.**
Cyfrifwyd canran y busnesau sy'n hyrwyddo'r llwybr mewn rhyw ffordd drwy dynnu'r ganran sy'n dweud nad ydynt yn ei hyrwyddo (69%) o 100.





**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) **(106)** C17. A ydych chi'n sôn am neu'n hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru yn unrhyw un o'ch deunyddiau marchnata eich hun, er enghraifft ar eich gwefan neu sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu wrth siarad â'ch cwsmeriaid?

Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

# Hyrwyddo’r llwybr

Mae 79% o fusnesau ar hyd Arfordir y De yn credu nad yw Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei hyrwyddo’n ddigonol. Dim ond 14% sy'n dweud ei fod yn cael ei hyrwyddo ar y lefel gywir (o'i gymharu â 21% ar gyfer cyfanswm Llwybr Arfordir Cymru).


**Yn gyffredinol, ydych chi'n meddwl bod y llwybr yn cael ei hyrwyddo…?**




**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (106) **C19**. Yn gyffredinol, a ydych chi’n meddwl bod Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei hyrwyddo…?

# Annog ymweliadau


Cyflwynwyd pedwar gwelliant posibl i'r llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ddatgan i ba raddau y maen nhw'n cytuno neu'n anghytuno a oedd eu hangen. Mae 77% o fusnesau'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth / gwell gwybodaeth am sut i gael mynediad i'r llwybr mewn car. Dilynir hyn yn agos gan fwy o wybodaeth / gwell gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus fel amserlenni (74%) a gwell darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus (72%). Ar nodyn mwy cadarnhaol, dim ond 45% o fusnesau sy'n meddwl bod angen gwell cysylltiadau ffordd.




**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (106) C21. I ba raddau a ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â Llwybr Arfordir Cymru? *Sylwer – nid yw labeli data <3% yn dangos er taclusrwydd.

# Gwella mynediad


Pan ofynnwyd mewn cwestiwn agored pa welliannau sydd eu hangen i wella mynediad, y prif argymhelliad gan fusnesau ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yw gwella cysylltiadau trafnidiaeth (28%). Mae 22% arall yn awgrymu y dylid codi proffil Cymru a Llwybr Arfordir Cymru drwy hyrwyddo a hysbysebu. Yn ogystal, mae 18% yn teimlo bod angen gwybodaeth fwy cyffredinol am y llwybr i helpu mwy o gwsmeriaid i deithio o amgylch y llwybr.




**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (106) C22. Pa welliannau (os o gwbl) ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i helpu mwy o gwsmeriaid/ymwelwyr i deithio o gwmpas neu i gael mynediad i'r llwybrau? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos.

# Gwybodaeth i gefnogi cwsmeriaid busnes / defnyddwyr llwybr

Mae'r wybodaeth a grybwyllir amlaf y mae busnesau'n credu y byddai eu cwsmeriaid yn ei chael fwyaf buddiol yn ymwneud â llwybrau i gerddwyr (20%), teithlenni cerdded (18%), a mannau o ddiddordeb (17%).




**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Arfordir y De (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (106) C30. Pa fath o wybodaeth ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf defnyddiol i'ch cwsmeriaid neu ddefnyddwyr eraill Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos

Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

# Llwybr Arfordir Cymru - Arfordir y De
Casgliadau ac argymhellion



## Casgliadau

**Mae 45% o fusnesau yn ystyried y llwybr yn bwysig i'w llwyddiant, gyda 16% yn disgwyl i'w bwysigrwydd dyfu wrth i dwristiaeth a hyrwyddo llwybrau gynyddu.**
Mae'r llwybr eisoes yn cyfrannu at y trosiant i lawer o fusnesau, gan gyflwyno cyfleoedd i ddyfnhau'r budd hwn.

**Gellir ehangu ymwybyddiaeth brandio i gryfhau cydnabyddiaeth ac ymgysylltiad**
Mae 63% o fusnesau yn ymwybodol o frandio'r llwybr, ond mae 41% yn teimlo nad yw'r logo yn un cofiadwy, gan gyfyngu ar ei effeithiolrwydd marchnata.

**Gallai gwelliannau mynediad roi hwb i nifer yr ymwelwyr a chyfleoedd busnes.**
Mae 77% o fusnesau yn gweld angen am well gwybodaeth am fynediad i geir, 74% am well manylion trafnidiaeth gyhoeddus, a 72% am well darpariaeth trafnidiaeth gyffredinol. Gallai problemau hygyrchedd gyfyngu ar dwf ymwelwyr os na chaiff sylw.

## Argymhellion

**Er mwyn rhoi hwb pellach i fudd y llwybr i fusnesau, ystyriwch gydlynu gyda byrddau twristiaeth lleol, cynghorau, a busnesau i ddatblygu ymdrechion hyrwyddo ar y cyd.**

Byddai mentrau fel pecynnau "Profiad Llwybr" neu deithlenni â thema, sy'n cyfuno llety lleol, bwyta ac atyniadau, yn annog ymwelwyr i aros yn hirach a gwario mwy yn yr ardal.

**Ystyried lansio ymgyrch ymwybyddiaeth frandio gynhwysfawr wedi'i thargedu at fusnesau lleol, gan ddarparu arwyddion ffisegol, citiau hyrwyddo digidol, a chyfleoedd marchnata wedi'u cyd-frandio iddynt.**
Gallai gweithdai sy'n canolbwyntio ar fusnes helpu i egluro manteision integreiddio brandio'r llwybr yn eu marchnata. Byddai hyn yn sicrhau negeseuon cyson a chydnabyddiaeth gryfach ymhlith ymwelwyr.

**Gallai'r cwmni weithio gyda chynghorau lleol, darparwyr cludiant, a sefydliadau twristiaeth i wella adnoddau teithio, megis mapiau meysydd parcio, amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus, ac arwyddion sy'n gyfeillgar i ymwelwyr.**
Gallai cyflwyno gwasanaethau gwennol tymhorol neu fentrau trafnidiaeth gydlynol helpu yn ystod cyfnodau prysur.

## Casgliadau

**Gall gwell gwybodaeth i ymwelwyr wella profiadau a hybu ymgysylltiad busnes.**
Mae busnesau yn tynnu sylw at yr angen am wybodaeth allweddol i ymwelwyr, gan gynnwys llwybrau cerdded (20%), teithlenni (18%), a mannau o ddiddordeb (17%).

**Mae graddfeydd cynnal a chadw cryf yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwelliannau.**
Mae 65% o fusnesau o'r farn bod gwaith cynnal a chadw dodrefn y llwybr yn gadarnhaol, ond mae hygyrchedd a chyfleusterau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn feysydd sy'n peri pryder, gyda 49% yn mynegi anfodlonrwydd.

**Mae angen gwell cyfathrebu i gryfhau ymgysylltiad busnes.**
Dim ond 4% o fusnesau sy'n cofio derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol am y llwybr, er gwaethaf cylchlythyr oedd yn bodoli.

## Argymhellion

**Gallai llwybrau cerdded â thema a theithlenni sy'n amlygu busnesau, atyniadau a gwasanaethau lleol fod yn ddefnyddiol.**
Er enghraifft, gellid hyrwyddo llwybrau fel "Llwybrau Antur i Deuluoedd" neu "Deithiau Cerdded Treftadaeth Arfordiol" trwy wefan a sianeli marchnata'r cwmni. Byddai cydweithio â busnesau lleol i roi sylw i'r teithlenni hyn yn creu trefniant a fyddai o fudd i'r ddwy ochr, gan annog ymwelwyr i grwydro y tu hwnt i'r llwybr ei hun.

**Ystyried partneriaethau â chynghorau lleol a busnesau, gan ddadlau o blaid prosiectau cynnal a chadw a ariennir ar y cyd.**
Gellid archwilio nawdd i amwynderau llwybrau fel meinciau, llwyfannau gwylio, neu fannau picnic i wrthbwyso costau wrth hyrwyddo busnesau lleol.

**Gallai ehangu'r cylchlythyr presennol gyda chynnwys sy'n benodol i fusnes, fel straeon llwyddiant a chyfleoedd i gydweithio, wella ymgysylltiad.**
Gallai grŵp cyswllt busnes penodol gefnogi adborth uniongyrchol a mentrau ar y cyd ymhellach.

# For more information

**Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt**
jhollingsworth@djsresearch.com

**Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil**
crapkins@djsresearch.com

**Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil**
eward@djsresearch.com

djs research

**Head office:** 3 Pavilion Lane, Strines, Stockport, Cheshire, SK6 7GH

**Leeds office:** Regus, Office 18.09, 67 Albion Street Pinnacle, 15th–18th Floors, Leeds, LS1 5AA

**+44 (0)1663 767 857 | djsresearch.co.uk**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path